**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Mawrth 2017**

## AMCANION GWELLA A LLESIANT 2018-19

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cynnig amcanion gwella a llesiant drafft ar gyfer 2018/19 i'r Aelodau eu cymeradwyo i ddiben ymgynghori.

## Cyflwyno

2 Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC), o dan Fesur Llywodraeth Leol 2009, wneud gwaith cynllunio ar gyfer gwella ac i gyhoeddi ei amcanion gwella ar gyfer 2018/19 erbyn 31 Mawrth 2018.

3 Mae'n ofynnol hefyd i ATAGC, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, wneud gwaith datblygu cynaliadwy ac i gyhoeddi amcanion llesiant. Rhaid cyhoeddi'r amcanion llesiant cyntaf erbyn 31 Mawrth 2017 a'u hadolygu fel rhan o drefniadau'r Awdurdod ar gyfer adrodd yn eu cylch. Felly, bydd yr adolygiad ffurfiol hwn o'r amcanion yn cael ei gynnal ar ôl Ebrill 2018.

4 Cyfarfu Gweithgor y Cynllun Gwella ar 6 Chwefror a 6 Mawrth 2017 i ddatblygu amcanion gwella a llesiant drafft ar gyfer 2018/19.

5 Y bwriad yw diwygio'r camau cynllunio eleni er mwyn caniatáu amser i enwebu aelodau ar gyfer yr Awdurdod ar ôl etholiadau'r cynghorau sir ym mis Mai. Bydd hyn yn golygu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r amcanion ddrafft rhwng Mai a Gorffennaf 2017, cyflwyno'r ymateb i'r Panel Gweithredol ym mis Hydref 2017 a chyflwyno'r amcanion drafft terfynol i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod llawn ym mis Rhagfyr 2017 ynghyd â'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2018/19.

**Gwybodaeth**

6 Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2017, cynigiodd Gweithgor y Cynllun Gwella y tri amcan drafft a ganlyn ar gyfer 2018/19, i ddiben ymgynghori â'r cyhoedd rhwng 8 Mai a 31 Gorffennaf 2017:

**i.** Cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o waith ataliol gyda'r nod o helpu i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel rhag tanau damweiniol mewn cartrefi;

**ii.** Diogelu cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod drwy gynnal strategaeth ariannol 3 blynedd sy'n gallu cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynyddu'r cyfaniadau ariannol a gwneud gostyngiadau i wasanaethau;

**iii.** Ceisio cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill i gynnig amrywiaeth ehangach o wasanaethau integredig i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

**Argymhelliad**

7 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r amcanion gwella a llesiant drafft ar gyfer 2018/19 i ymgynghori yn eu cylch fel yr amlinellir ym mharagraff 6.